**Rhif: WG32940**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Cod Ymarfer er Lles Cŵn

Dyddiad cyhoeddi:16 Hydref 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 8 Ionawr 2018

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i asiantaethau gorfodi, grwpiau buddiannau arbenigol a'r cyhoedd ystyried cynigion i ddiweddaru'r Cod Ymarfer er Lles Cŵn yn Nghymru. Nod y codau yw rhoi gwybodaeth a chanllawiau i'r rhai sy'n gyfrifol am geffylau a gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt.<br>Mae'r Cod Cŵn presennol yn adlewyrchu yr wyddoniaeth a'r ddeddfwriaeth oedd mewn grym pan gafodd y Cod ei wneud o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae angen adolygiad nawr i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn y meysydd hynny ac i sicrhau bod y safonau sy'n cael eu argymell yn parhau i fod yn briodol.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru sydd wedi helpu i baratoi'r cod. |
| **Sut i ymateb** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn ar arddull, cynllun a chynnwys y cod a'r wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau y mae'n ei gynnwys. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint â phosib o wybodaeth a thystiolaeth i gefnogi eich barn. Bydd hyn yn helpu inni sicrhau bod y cod yn fwy cywir ac o ansawdd gwell. Mae croeso ichi gynnig sylwadau ar unrhyw ran o'r cod.<br><br>Anfonwch eich sylwadau erbyn<br><br>Companionanimalwelfare@gov.wales<br><br>Cangen Lles Anifeiliaid,<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cangen Lles Anifeiliaid,<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ<br><br>Companionanimalwelfare@gov.wales<br><br>03000 255007 |

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.